OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 760 (Cy.64)

GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB, CYMRU

Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud	- -	*16 Mawrth 2005*
Yn dod i rym	- -	*17 Mawrth 2005*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 21(6), 60 a 62 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**1**) ac ar ôl ymgynghori ag unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol yn unol ag adran 21(5) o'r Ddeddf honno:

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2005 a daw i rym ar 17 Mawrth 2005.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Y Fframwaith Cenedlaethol

2. At ddibenion adran 21(6) o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, bydd y Fframwaith Tân ac Achub a baratowyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n dwyn yr enw "Y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer y Gwasanaeth Tân ac Achub (Cymru) 2005" a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mawrth 2005 yn cael effaith.

(**1**) 2004 p. 21.